# Cannabidiol gyda clobazam ar gyfer trin ffitiau sy'n gysylltiedig â syndrom Dravet

18 Rhagfyr 2019

Mae Cannabidiol (Epidyolex) gyda clobazam ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer ffitiau sy'n gysylltiedig â Syndrom Dravet mewn pobl dwy oed a throsodd. Dylid gwirio pa mor dda y mae Cannabidiol yn gweithio bob chwe mis. Dylid stopio defnyddio Cannabidiol os nad yw nifer y ffitiau dirdynnol wedi gostwng o leiaf 30% o gymharu â'r chwe mis cyn dechrau triniaeth.

Os nad ydych yn gymwys i gael Cannabidiol, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

### A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### Gwybodaeth a chymorth

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Dravet Syndrome UK, 01246 912421



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Epilepsy Action, 0808 800 5050
- Cymdeithas Epilepsi, 01494 601 400

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp Gwarchod Iechyd lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3628-1



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.